# Cyfnewidfa Rheolaeth Cyswllt Ffermio

Wedi'i ariannu trwy raglen Trosglwyddo Gwybodaeth, Arloesi a Gwasanaeth Cynghori dan Gymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru - Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-2020.

Tom Cowcher

Yr Alban

Amaeth-goedwigaeth

Hydref 2017

**1. Cefndir**

Daeth yr ysbrydoliaeth o'r Gynhadledd Amaeth-goedwigaeth gyntaf yn Cranfield College ym mis Mehefin 2017.

Rhannodd dau siaradwr gwadd o'r Alban eu profiadau:

i) Mike Strachan gyda Forestry Commission Scotland

ii) Andrew Barbour 'Ffermwr Ucheldir Bîff a Defaid'

Roedd y Woodland Trust yn noddi'r digwyddiad ac yn hyrwyddo Amaeth-goedwigaeth.

Roeddem ni mewn trafodaeth gyda'r Woodland Trust ynglŷn â sefydlu menter Amaeth-goedwigaeth gan eu bod wedi prynu tir amaethyddol y drws nesaf i'n fferm. Bwriad yr ymweliad cyfnewid oedd casglu gwybodaeth o arfer da yn Yr Alban.

Ers dechrau'r prosiect mae'r Woodland Trust wedi penderfynu peidio ymgymryd ag Amaeth-goedwigaeth ar eu tir drws nesaf i'n fferm.

**2. Amaeth-goedwigaeth yn Yr Alban**

<u>24 Hydref 2017</u>

Cyfarfod â Mike Strachan sy'n gweithio fel Swyddog Datblygu a Pholisïau ar gyfer Comisiwn Coedwigaeth yr Alban. Mae hefyd yn Gadeirydd UK Farming Woodland Forum ac yn aelod o'r European Agroforestry Federation. Mae Mike wedi helpu cefnogi newidiadau ar lefel Ewropeaidd er mwyn galluogi amaeth-goedwigaeth i fod yn fesur derbyniol mewn rhaglenni datblygu gwledig.



*Eva Cowcher a Mike Strachan*

Aeth Mike â ni i'r Bolfracks Estate ger Aberfeldy, Perthshire. Mae'n stad o dros 2,000 hectar gyda hanner yn goedwig a hanner yn amaethyddol.

Aeth yr ymweliad cyntaf â ni i safle gyda choed 20 mlwydd a blannwyd ar gŵys yr aradr. Roedd yna ddigonedd o borfa o dan y coed. Dros y blynyddoedd mae coed gwael wedi cael eu tynnu a'r gweddill wedi cael eu tocio yn 5 i 6 metr. Mae hyn yn cynhyrchu coed syth a thal gyda phren o safon dda. Mae'r amrywiaeth o goed a dyfwyd yn cynnwys coed Ceirios, Bedw, Masarn ac Ynn. Am y deng mlynedd gyntaf, defaid yn unig oedd yn pori ymysg y coed, ond ers hynny mae gwartheg a defaid yn pori rhwng y coed mwyaf.

Coed deng mlwydd oed oedd ar safle'r ail ymweliad. Cawsant eu plannu mewn blociau gyda bwlch o 3m x 3m a llwybrau rhyngddynt. Roedd Mike o'r farn bod plannu gyda bwlch o 5m x 2m yn well. Roedd yr amrywiaeth yn cynnwys coed Derw, Ynn, Masarn a Chastanwydd Pêr. Fel gyda'r safle cyntaf, bydd y coed hyn yn cael eu tocio i 5 i 6 metr er mwyn cynhyrchu pren o ansawdd uchel. Mae'r coed yn agored i ddefaid i bori ac yn darparu cysgod da.



*Mike ac Eva yn asesu gwarchodydd coed*

Mae'r taliadau cynorthwyol yn yr Alban i'w weld yn fwy hael ar gyfer sefydlu 400 o goed yr hectar £3.600/h. Taliadau cynnal a chadw parhaus am bum mlynedd ar £100/h am goetir sy'n cael ei bori a £40/h ar gyfer coetir heb dda byw.

25 Hydref 2017

Ymweld â fferm Andrew a Seonag Barbour



*Seonag ac  Andrew Barbour gyda Tom Cowcher*

Mae Andrew yn gweithio ar fusnes teuluol ffermio a choedwigaeth yn ucheldir Perthshire. Mae'r fferm yn cadw gwartheg a defaid ar dir sydd dros 1,000 o droedfeddi o uchder. Mae yna goed cysgodol ar y fferm ac mae gan Andrew ddiddordeb mewn rheoli coetiroedd bugeiliol a sut maen nhw'n cyfuno gyda rheoli glaswelltir.

Ar yr ymweliad dywedodd Andrew fod ganddynt 10% o goetir pori ar draws y fferm ucheldir 1,200 erw. Dywedodd mai 3% yn unig o'r cysgod coed i gnydau neu gysgod i dda byw sydd o fudd sylweddol i ddargadwedd CO2.

**Safle 1:** Cerddom i fyny at lain gysgodi ar 1,400 troedfedd. Roedd hon yn blanhigfa 40 mlwydd oed o binwydden yr Alban, Masarn a Sbriws Norwy. Roedd y goedwig tua 800 medr o hyd a 60 medr o led. Roedd wedi tynnu'r ffens ar un ochr o'r blanhigfa ac roedd y goedwig agored hon bellach yn annog anifeiliaid i chwilio am gysgod a phori. Sylwodd fod defaid a gwartheg yn chwilio am gysgod pan oedd tywydd garw ar y ffordd.  Mae anifeiliaid bodlon yn perfformio'n well.  Ar hyd y blynyddoedd mae'r coed wedi cael eu teneuo'n ddetholus, ar gyfer coed tân yn bennaf.



*Planhigfa 40 mlwydd oed*

**Safle 2:** Cafodd ardal ger y buarth ei blannu yn 1994 er mwyn darparu llain gysgodi. Mae'r coed sy'n tyfu'n dalach sef y coed derw, bedw a masarn yn wynebu'r gwynt. Yn y canol mae yna goed cyll a draenen ddu ar yr ochr isaf. Mae hyn yn rhoi cysgod gwych i ddefaid yn enwedig yn ystod y cyfnod ŵyna. Bydd y coed mwyaf yn cynhyrchu pren da a syth ar gyfer y felin llifo cartref.



*Coed Bedw a Chyll*

**Safle 3:** Cafodd planhigfa fechan o gerddin gwynion, coed bedw a chyll ei phlannu dair mlynedd yn ôl ger adfail bwthyn. Mae gan y coed warchodydd a pholion uchel i'w gwarchod rhag defaid. Mae'r safle cyfan wedi cael ei warchod gan ffens drydanol ddwbl er mwyn cadw ceirw allan. Mae'n rhaid i unrhyw blannu newydd yn y rhan hwn o'r Alban fod â ffens i atal ceirw. Mae'r defaid yn medru mynd o dan y ffens drydanol a phori o amgylch y coed. Er bod coed wedi cael eu plannu mae'n dal yn bosib pori'r tir ac felly'n parhau yng nghynhyrchiant amaethyddol.



*Ffens drydanol ddwbl*

**Safle 4:** Cafodd coed derw, masarn, bedw a chriafol eu plannu yn y dyffryn tua wyth mlynedd yn ôl. Mae'r cynllun ar gyfer y safle yn cael ei adnabod fel 'Strip Alley Planting'. Mae'r ale ('alley') fel llwybr 4m o led. Mae'r coed yn cael eu plannu mewn grwpiau bob 12m a phob coeden yn cael eu plannu gyda bwlch o 2m. Mae defaid bellach yn pori rhwng y coed ac ar ôl 16 mlynedd bydd

gwartheg hefyd yn medru pori yno. Roedd cyllid gan y Llywodraeth wedi talu i'w sefydlu. Cafodd y coed eu plannu ar 1,600 yr hectar.



*Strip Alley Planting*

Mae Andrew yn argyhoeddedig o fudd Coetir pori ar ei dir gwael. Mae coed, nid yn unig yn rhoi cysgod sy'n arbed ar golledion ŵyn, ond hefyd yn annog twf cynnar yn y borfa trwy godi tymheredd y pridd a'r lleithder.

**Canlyniadau Dysgu a Gwybodaeth Allweddol a Gafwyd**

Gwelodd Mike ac Andrew fod yna fudd i blannu coed ar fferm ucheldir. Roedd yna welliannau defnyddiol mewn cysgod, dargadwedd lleithder a chodiad yn nhymheredd y pridd.

Ffactorau pwysig:

- Mwy o ŵyn yn goroesi pan fydd tywydd garw yn ystod y cyfnod ŵyna
- Porfa'n tyfu'n gynharach o amgylch y coed gan fod y pridd yn gynhesach
- Anifeiliaid yn ennill maetholion wrth bori ar goed neu lwyni.
- Defaid a gwartheg yn mwynhau cysgodi yn y coed ac o ganlyniad yn fwy bodlon.
- Coetir pori yn fwy addas i dir gwael gan fod angen y tir gwell ar gyfer porthiant a chynhyrchu grawn
- Mae ardal fach o amaeth-goedwigaeth (cyn lleied â 3% o gysgod coed) o fudd sylweddol i ddargadwedd $CO_2$.

Ar ôl yr ymweliad cyfnewid i'r Alban rwy'n teimlo'n fwy hyderus i fedru integreiddio coetir i'n system ffermio.

Yn hytrach na phlannu coed ar ein tir ffermio byddwn yn fwy tebygol o agor ychydig o goetir i bori anifeiliaid a rhoi cysgod iddynt. Mae gennym ni ddigon o gysgod coed gyda 30% o'r fferm yn goetir yn ogystal â chloddiau trwchus a nifer o goed sydd wedi'i gwasgaru o amgylch y fferm.

**3. Camau nesaf/ Gwybodaeth Werthfawr a Ddysgwyd**

Rydym ni eisoes wedi rhoi mynediad i'r defaid i'r coetir. Mae'n darparu cysgod a daear galed ar gyfer bwydo anifeiliaid, sydd o fudd i dda byw ac yn atal tir pori rhag cael eu potsio'n ddifrifol. Ar hyn o bryd, mae'r mwyafrif o'n coetir ar y Cynllun Cau Da Byw Allan ('Stock Excluded Scheme') ond o fewn 12 mis byddwn yn edrych ar bori mwy o goetir a sefydlu Coetir Pori.

Rydym ni wedi plannu aeron Aronia a choed afalau ac mae gennym ni gychod gwenyn ar ochr uchaf y goedwig. Felly, byddwn yn cynaeafu cynnyrch coedwig nad yw'n bren o'n coetir.

Rydym ni'n bwriadu plannu coed masarn a cherddin gwynion ond nid ydym wedi defnyddio'r rhain o'r blaen. Maen nhw'n dda ar gyfer pori anifeiliaid.

## 4. Negeseuon Allweddol i'r Diwydiant

1. Mae nifer o fanteision i ychwanegu Amaeth-goedwigaeth i system ffermio
2. Mae tir ymylol a serth yn fwy addas ar gyfer plannu coed
3. Ni argymhellir i ffermydd sydd â digonedd o goed/cloddiau blannu rhagor o goed ar dir da
4. Ar ffermio dwys ar hyd afonydd sydd mewn Parthau Perygl Nitradau, mae manteision i blannu torlannol mewn perthynas â chasglu maetholion cyn iddynt lygru'r afon yn nes i lawr.
5. Ar ffermydd ucheldir mae coetir pori a lleiniau cysgodi yn achub bywydau; yn enwedig ŵyn newydd-anedig
6. Allyriadau nwy tŷ gwydr - mae gan gyn lleied â 3% o gysgod coed fantais sylweddol ar ddargadwedd CO2
7. Mae gan ffactorau eraill rheoli fferm bwysigrwydd mawr mewn perthynas â dargadwedd CO2. Mae compostio gwrtaith a'i storio o dan do yn ffactorau pwysig iawn
8. Mae ffermio organig sy'n defnyddio gwndwn meillion er mwyn adeiladu ffrwythlondeb a galluogi pesgi gwartheg o fewn 18 mis yn lleihau allyriadau nwy tŷ gwydr.
9. Amaeth-goedwigaeth. Mae system sydd â Choetir Pori, Coed a Chloddiau o fewn system ffermio organig yn fodel da ar gyfer ffermio yn y DU ar ôl Brexit